



December 2023 - Rhagfyr 2023

Dear reader,

We wanted to wish you and your loved ones a very Happy Christmas and a wonderful New Year.

This year we took major strides in delivering promised works, expending over £20million on the Afan Valley site to date. Whilst we understand that real progress won't be seen until full construction begins, there is a whole host of dedicated people working hard to make this happen behind the scenes. So far, the Wildfox team have:

- Acquired the site and land for an environmental compensation site number one
- Received approval on 'reserved matters' and some planning conditions
- Submitted Habitat Management Plan proposals for environmental compensation site number two
- Completed a number of onsite surveys to prepare for construction, including the identification of old mine shafts
- A significant area of the main site underwent reptile translocation (the process of collecting common reptiles and moving them to a different location) and created new and improved off site habitats
- Through the ecological works, we have revealed new and previously unrecorded heritage features including stone walls
- Attended the Safer Croeserw event to discuss how we work with our emergency and public service partners
- Welcomed local council leaders and Cabinet members to site to collaborate on the strategic opportunity for the region
- Appointed a brand agency to bring Wildfox to life and agreed a final concept which will be market tested next year
- Celebrated wellbeing and adventure as part of Neath Port Talbot's Pride of Place campaign
- Progressed our workforce development strategy with Neath Port Talbot Group of Colleges who have been successful in applying for funding for a Wildfox Ranger through the UK Government's Shared Prosperity Fund Skills to connect communities to new opportunities from 2024.
- Extended our school engagement programme with the Bumbles of Honeywood and created bespoke primary school resources such as ecology fact sheets and colouring-in kits
- Hosted a community heritage event 'Voices of the Valleys' with over 100 community members and organisations, and produced a heritage video with the South West Miners Museum
- Joined the Neath Port Talbot Public services board, to represent our investment into the region and how it will create 1,000 new jobs in construction and a further 1000 jobs in operation.

Our current efforts remain focussed on agreeing the advanced habitat management plans with Neath Port Talbot Country Borough Council. This represents a very sizeable obligation and additional financial charge on the project and until approved, and the associated land secured, our onsite activity will be minimal. Public Rights of Way will remain closed on the site to ensure public safety.

For now, we wanted to thank everyone for their patience with us throughout the year and for trusting in the team to deliver a scheme that will work for everyone. We have made fond memories this year; meeting so many of you and hearing your stories, and we hope 2024 will bring more activity, progress and opportunities for you to get involved!

Have a lovely Christmas season and we will see you next year.

Warm regards,

The Wildfox Resorts team

Annwyl ddarllenwydd,

Roeddem ni eisiau dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd fendigedig i chi a'ch anwyliaid.

Eleni, fe gymeron ni gamau breision i gyfeiriad cyflenwi'r gwaith a addawyd, gan wario dros £20 miliwn ar safle Cwm Afan hyd yn hyn. Er ein bod ni'n deall nad yw'r cynnydd go iawn yn mynd i gael ei amlygu nes bod y gwaith adeiladu llawn yn dechrau, mae llu o bobl ymroddedig iawn yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i sicrhau fod hyn yn digwydd. Hyd yma, mae tîm Wildfox wedi:

- Acquired the site and land for an environmental compensation site number one
- Caffael y safle a'r tir ar gyfer safle iawndal amgylcheddol rhif un
- Derbyn cymeradwyaeth ar 'faterion a gadwyd yn ôl' a rhai amodau cynllunio
- Cyflwyno cynigion Cynllun Rheoli Cynefin ar gyfer safle iawndal amgylcheddol rhif dau
- Cwblhau sawl arolwg ar y safle i baratoi ar gyfer adeiladu, gan gynnwys amlygu lleoliad hen siafftau
- Aeth ardal sylweddol o'r prif safle drwy drawsleoli ymlusgiaid (y broses o gasglu ymlusgiaid cyffredin a'u symud i leoliad arall) a chrëwyd safleoedd cynefin newydd a gwell oddi ar y safle.
- Drwy gyfrwng gwaith ecolegol, rydyn ni wedi datgelu nodweddion treftadaeth newydd a rhai na chawsant eu cofnodi o'r blaen, gan gynnwys waliau cerrig.
- Wedi mynychu digwyddiad Croeserw Diogelach i drafod sut y byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid gwasanaethau brys a chyhoeddus
- Croesawu arweinwyr lleol ac aelodau'r Cabinet i'r safle i gydweithio ar gyfle strategol i'r rhanbarth.
- Penodi asiantaeth frand i ddod â Wildfox yn fyw, a chytuno ar gysyniad terfynol a fydd yn mynd drwy broses o brofi'r farchnad flwyddyn nesaf.
- Dathlu llesiant ac antur fel rhan o ymgyrch Balch o'n Lle Castell-nedd Port Talbot
- Datblygu ein strategaeth ddatblygu gweithlu gyda Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais am arian am Barcmon Wildfox drwy gyfrwng Cronfa Sgiliau Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y DU, i gysylltu cymunedau â chyfleoedd newydd o 2024 ymlaen.
- Ymestyn ein rhaglen ymgysylltu ag ysgolion gyda'r Bumbles of Honeywood a chreu adnoddau wedi'u teilwra ar gyfer ysgolion cynradd, fel taflenni ffeithiau ecoleg a pheccynau lliwio.

- Cynnal digwyddiad treftadaeth cymunedol ‘Lleisiau’r Cwm’ gyda thros 100 o aelodau’r gymuned a sefydliadau, a chynhyrchu fideo treftadaeth gydag Amgueddfa Glowyr De Cymru
- Ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot, er mwyn cynrychioli ein buddsoddiad yn y rhanbarth, a’r modd y bydd yn creu mil o swyddi newydd mewn adeiladu a mil ymhellach wrth weithredu’r gyrchfan.


Mae ein hymdrechion presennol yn parhau i ganolbwyntio ar gytuno ar y cynlluniau rheoli cynefin uwch gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn cynrychioli ymrwymiad sylweddol iawn, ac mae’n gost ariannol ychwanegol ar y prosiect; nes y caiff ei gymeradwyo, a’r tir cysylltiedig wedi’i ddiogelu, bydd ein gweithgarwch ar y safle’n fychan. Bydd Tramwyfeydd Cyhoeddus yn parhau i fod ar gau ar y safle i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Am y tro, hoffem ddiolch i bawb am eu hamynedd gyda ni drwy gydol y flwyddyn, ac am ymddiried yn y tîm i ddarparu cynllun a fydd yn gweithio i bawb. Rydyn ni wedi creu atgofion melys eleni; cwrdd â chynifer ohonoch a chlywed eich straeon, a gobeithio y daw 2024 â mwy o weithgarwch, cynnydd a chyfleoedd i chi gymryd rhan!

Mwynhewch dymor y Nadolig, ac fe’ch gwelwn ni chi y flwyddyn nesaf

Cofion Cynnes

Tim Cyrchfan Wildfox



WILDFOX
RESORTS

NATURE'S ADVENTURE

WWW.WILDFOXRESORTS.COM